| | |
|---|---|
| **Adroddiad i:** | **Pwyllgor Cynllunio** |
| **Dyddiad y cyfarfod:** | **22 Ionawr 2014** |
| **Aelod/ Swyddog Arweiniol:** | **Cynghorydd David Smith, Parth Cyhoeddus / Angela Loftus, Rheolwr Polisi Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd** |
| **Awdur yr Adroddiad:** | **Karsten Bruβk, Swyddog Cynllunio** |
| **Teitl:** | **Drafft o'r Canllawiau Cynllunio Atodol: Gofynion Parcio** |

---

## 1. Beth mae'r adroddiad amdan?

1.1 Mae'r adroddiad yn cyd-fynd â'r Nodyn Canllawiau Cynllunio Atodol (CCA) o fewn Drafft o Gynllun Datblygu Lleol Sir Ddinbych 2006 - 2021 (CDLl): Gofynion Parcio a fydd, os mabwysiadir y rhain, yn cael eu defnyddio i bennu ceisiadau cynllunio.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

2.1 Bwriad yr adroddiad hwn yw derbyn cymeradwyaeth Aelodau i ymgynghori ar y drafft o'r CCA: Gofynion Parcio, sy'n cynnig drafft o safonau parcio newydd i'w defnyddio yn y Sir. Unwaith y caiff y drafft ei fabwysiadu, bydd yn cymryd lle'r CCA 21 presennol: Gofynion Parcio mewn Datblygiadau Newydd, ac yn rhoi arweiniad diweddaraf pellach i Ddatblygwyr, Swyddogion ac Aelodau.

## 3. Beth yw'r argymhellion?

3.1 Bod Aelodau'n cymeradwyo'r ddogfen ddrafft CCA 'Gofynion Parcio' (wedi'i atodi yn Atodiad 1) fel sail ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus.

## 4. Manylion yr adroddiad

4.1 Nid yw nodiadau Canllawiau Cynllunio Atodol y Cyngor yn rhan o'r cynllun datblygu a fabwysiadwyd. Mae Llywodraeth Cymru (LlC) wedi cadarnhau ar ôl ymgynghoriad cyhoeddus a chymeradwyaeth yr Awdurdod Cynllunio Lleol, fod modd trin CCA fel deunydd ystyried cynllunio pan fydd ACLl, Arolygwyr Cynllunio a Llywodraeth Cymru yn gwneud penderfyniadau ar geisiadau cynllunio ac apeliadau.

4.2 Pan gafodd Cynllun Datblygu Lleol Sir Ddinbych 2006 -2021 ei fabwysiadu ym Mehefin 2013 fe benderfynodd y Cyngor i gario mlaen gyda'r holl CCA a oedd

wedi eu mabwysiadu a'u defnyddio fel arweiniad cynllunio mewn perthynas i'r CDLl, yn amodol ar adolygiad llawn. Cytunwyd gwneud adolygiad o bob CCA cyn gynted a bo hynny'n ymarferol ar ôl mabwysiadu'r Cynllun.

4.3 Diweddarwyd y safonau parcio i adlewyrchu polisi Llywodraeth Cymru a'r Cyngor ar gynllunio ar gyfer cludiant a defnydd o dir. Mae polisi cynllunio Cenedlaethol a lleol wedi eu cynnwys yn y Polisi Cynllunio i Gymru (Rhifyn 5 – Tachwedd 2012), Nodyn Cyngor Technegol (NCT) 18: Cludiant (2007) a Chynllun Datblygu Lleol Sir Ddinbych 2006 – 2021 (CDLl), a fabwysiadwyd ym Mehefin 2013. Mae atodiadau ACLl yn ychwanegu at bolisi CDLl ASA3 trwy ddarparu rhagor o wybodaeth ar ofynion parcio.

4.4 Yn Sir Ddinbych mae safonau parcio wedi eu gosod ar gyfer tri phrif barth parcio sy'n adlewyrchu'r gwahanol ofynion ar gyfer teithiau unigol mewn car yn ardaloedd trefol a gwledig y Sir, ac os yw gwasanaethau cludiant cyhoeddus ar gael yn hawdd, a'r ddarpariaeth isadeiledd.

4.5 Mae yna ymdriniaeth newydd wrth gyfrifo gofynion parcio, h.y. maent wedi eu rhannu'n ddau gategori: gweithredol ac anweithredol. Mae'r categori cyntaf yn cyfeirio at lefydd parcio gwag sy'n ddigonol ar gyfer yr uchafswm o gerbydau a maint y cerbydau sy'n debygol o fod ar y safle ar un cyfnod penodol. Mae gofyniad anweithredol yn golygu bod cerbydau wedi parcio mewn llefydd parcio sydd ddim o reidrwydd yno i weithredu'r lleoliad, e.e. staff, cleientiaid neu ymwelwyr.

4.6 Mae'r ddogfen yn pwysleisio y gweithredir y safonau uchafswm parcio ledled y Sir er mwyn lleihau'r orddibyniaeth ar y car. Y nod yw lleihau'r nifer o deithiau unigol mewn car ac i hyrwyddo'r defnydd o drafnidiaeth gynaliadwy.

4.7 Mae safonau Parcio yn cynnwys darparu llefydd parcio i feiciau, beiciau modur, loriau, bysiau a cheir. Mae'r ddogfen yn pwysleisio'r gofynion ychwanegol a ddarperir i fodurwyr anabl.

4.8 Os bydd yr aelodau yn Cymeradwyo'r ddogfen yna bydd cyfnod o ymgynghoriad cyhoeddus ar ddrafft o'r CCA am o leiaf 8 wythnos. Bydd yr holl adborth a dderbynnir yn cael ei adrodd yn ôl i'r Pwyllgor Cynllunio a bydd y CCA terfynol yn cael ei fabwysiadu. Cynhaliwyd gweithdy gyda Grŵp Llywio'r CDLl ym mis Tachwedd 2013 ac mae crynodeb o'r prif faterion a godwyd wedi'i atodi yn Atodiad 3.

## 5. Sut y bydd y penderfyniad yn cyfrannu at Flaenoriaethau'r Gorfforaeth?

5.1 Blaenoriaethau Corfforaethol 2012 – 17. Bydd y CCA yn cyfrannu'n gadarnhaol at y blaenoriaethau corfforaethol canlynol:

- Moderneiddio'r Cyngor i drosglwyddo effeithiolrwydd ac i wella gwasanaethau i'n cwsmeriaid trwy sicrhau fod y canllawiau ar gynllunio wedi eu diweddaru.

**6. Beth yw'r gost a sut y bydd yn effeithio gwasanaethau eraill?**

6.1 Ni ddisgwylir costau ychwanegol i gymeradwyo drafft o ddogfen CCA yn dilyn ymgynghoriad â chyrff statudol a'r cyhoedd.

**7. Beth yw prif ganlyniadau'r Asesiad Effaith ar Gyfartaledd (EAG) a wnaethpwyd ar y penderfyniad? Dylid atodi'r templed EAG fel atodiad i'r adroddiad hwn.**

7.1 Mae'r Asesiad Effaith ar Gyfartaledd yn ymarfer sgrinio a ddaeth i'r canlyniad nad oedd angen EAG (llawn). Mae'r templed EAG wedi'i atodi i'r adroddiad hwn yn Atodiad II.

**8. Pa ymgynghoriadau a wnaed gydag Archwiliad ac eraill?**

8.1 Dim ymgynghoriad ffurfiol wedi'i wneud eto ond mae swyddogion o'r adrannau Polisi Cynllunio, Datblygu Rheolaeth a Phriffyrdd yn rhan o'r broses llunio drafft o'r ddogfen CCA. Cynhaliwyd gweithdy gydag aelodau o'r Grŵp Llywio CDLl ym mis Tachwedd 2013.

**9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**

9.1 Dylid cynnwys unrhyw gostau sydd ynghlwm â'r arweiniad o fewn cyllidebau presennol ac felly nid oes unrhyw oblygiadau ariannol wedi eu cynnwys yn yr adroddiad.

**10. Beth yw'r risgiau ac oes yna unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau nhw?**

10.1 Yn absenoldeb canllaw diweddaraf mae yna risg na fydd y Cyngor yn gallu darparu cyngor cynllunio manwl gywir i gwsmeriaid.

**11. Pŵer i wneud penderfyniad**

11.1 Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004.